

Rhaglen Gyflawn



**Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH**

Y Cyngor – 5 Rhagfyr, 2024
Eitem 6 - Cwestiynau

EITEM 6 – CWESTIYNAU

(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Gruffydd Williams

A yw'r Adran Addysg yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau fod yr holl ysgolion yn cydymffurfio ag argymhellion Adolygiad Cass ?

Ateb – Aelod Cabinet Cysgodol dros Addysg, Y Cynghorydd Paul Rowlinson

Mae darparu canllawiau cenedlaethol priodol i ysgolion yng Nghymru i gefnogi plant a phobl ifanc traws, anneauidd a rhywedd-gwestiynol mewn addysg yn un o ymrwymadau Llywodraeth Cymru. Ers yr ymgyngoriad yn Ebrill 2024 nid oes canllawiau wedi eu cyhoeddi. Pan fyddant yn cael eu cyhoeddi fe wnaiff yr Adran Addysg bopeth sydd yn ddisgwyliedig ohonom i'w hyrwyddo ymysg ein hysgolion yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams

A fydd Cyngor Gwynedd yn cyflwyno sylwadau cryf i Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch colli'r trêen hwyr olaf tua'r gogledd a thua'r de ar reilffordd Arfordir y Cambrian? Does dim bysiau o gwbl yn hwyr yn y nos rhwng Machynlleth a Fairbourne na rhwng Abermaw a Phorthmadog felly mae trafndiaeth gyhoeddus amgen allan o'r cwestiwn. Bydd y penderfyniad hwn yn effeithio ar weithwyr yn y diwydiant lletygarwch a staff archfarchnadoedd lleol ac yn mynd yn groes i bolisi Llywodraeth Cymru o annog llai o deithiau car, er nad oes gan lawer o bobl yn yr ardal hon geir.

Ateb – Aelod Cabinet Cysgodol dros Amgylchedd, Y Cynghorydd Craig ab Iago

Hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Eryl Jones-Williams am y cwestiwn.

Fel y bydd Aelodau'n cofio, rhoddodd y Cynghorydd Dafydd Meurig, yr Aelod Cabinet ar y pryd â chyfrifoldeb am Adran yr Amgylchedd, ymateb i gwestiwn ynghylch lefelau gwasanaeth ar Reilffordd Arfordir y Cambrian i gyfarfod llawn Cyngor Gwynedd a gynhaliwyd ar 09 Mai 2024. Darperir copi o'r ymateb hwn fel **Atodiad 1** er hwylustod cyfeirio.

Darperir hefyd gopi o'r llythyr a anfonodd yr Aelod Cabinet at Trafnidiaeth Cymru ynghylch y newidiadau arfaethedig a oedd i'w cyflwyno ym mis Rhagfyr 2024.

[Llythyr DM i TC Newidiadau i Amserlen Rheilffordd y Cambrian Ebrill 2024.pdf](#)

Mae'r cyfeiriad wedi'i gynnwys yn hyn i'r gwasanaethau y mae'r Cynghorydd Jones-Williams yn cyfeirio atynt.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, adolygwyd rhai o'r cynigion cychwynnol gan Trafnidiaeth Cymru i leihau gwasanaethau ac nid ydynt bellach i'w cyflwyno ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nodir y bydd newidiadau i wasanaethau'r nos yn ystod amserlen y gaeaf, sy'n siomedig iawn am y rhesymau y mae'r Cynghorydd Jones-Williams sydd hefyd wedi ei cyfeirio ato yng ngohebiaeth yr Aelod Cabinet.

Mae barn Cyngor Gwynedd ar y newidiadau eisoes wedi ei fynegi mewn termau pendant i Trafnidiaeth Cymru. Bydd cyfleoedd yn parhau i'r Aelodau godi'r rhain, ac unrhyw faterion eraill sy'n effeithio ar wasanaethau ar Reilffordd Arfordir y Cambrian, yng nghyfarfodydd

rheolaidd Pwyllgor Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian ble mae cynrychiolwyr Trafnidiaeth Cymru yn bresennol ynddynt.

Hoffwn gadarnhau, yn ddiffuant, y byddwn wrth gwrs yn parhau i lobïo am y cyfleoedd gorau posibl i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar draws Gwynedd sy'n cynnwys ar Reilffordd Arfordir Cambrian.

ATODIAD 1

Cwestiwn ac ateb blaenorol:

Cwestiwn ar gyfer Cyngor 9 Mai - Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams

A fydd Cyngor Gwynedd yn cyflwyno sylwadau cryf i gael Trafnidiaeth Cymru i newid eu meddyliau ynghylch tynnu pedwar trê yn ôl, dau bob ffordd rhwng Machynlleth a Phyllheli, pan fydd eu Hamserlenni newydd ar gyfer Rheilffordd Arfordir y Cambrian yn cael eu cyflwyno ym mis Rhagfyr 2024?

Bydd hyn yn cael effaith ddifrifol ar bobl leol sy'n teithio i'r gwaith ac adref, ac ar bobl leol ac ymwelwyr sy'n teithio pellter hir ar y rheilffordd.

A wnaeth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried bod rheilffordd Arfordir y Cambrian wedi cau am dri mis yn ystod y tair blynedd ddiwethaf i waith gael ei wneud ar Draphont Abermaw heb unrhyw drenau yn rhedeg a bod y gwasanaeth bws dros dro yn annibynadwy?

Hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Eryl Jones-Williams am ei gwestiwn amserol a'r Cynghorydd Gwynfor Owen am y rhybudd o gynnig a godwyd fel rhan o agenda'r cyfarfod hwn ynghylch y mater pwysig hwn.

Derbyniodd Arweinydd y Cyngor ohebiaeth gan James Price, Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru ar 10 Ebrill 2024 ynghylch y newidiadau i'r amserlen ar Reilffordd Arfordir y Cambrian a fyddai'n weithredol o fis Rhagfyr 2024.

Mewn ymateb, ysgrifennais at James Price ar 25 Ebrill 2024 yn gofyn am gadarnhad o'r newidiadau a'u statws. Rwyf wedi rhannu'r ymateb hwn gyda holl Aelodau Cyngor Gwynedd y mae eu cymunedau'n cael eu gwasanaethu'n uniongyrchol gan Reilffordd Arfordir y Cambrian ac felly y byddai unrhyw newidiadau'n effeithio arnynt, sydd hefyd wedi'u dosbarthu i'r holl gynghorwyr fel rhan o'r ymateb hwn.

Fel rhan o'r ymateb, rwy'n cyfeirio'n benodol at effeithiau'r newidiadau ar y cymunedau lleol yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol, gan gyfeirio at ffactorau sydd wedi dylanwadu ar lefelau gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf a'r effaith ar nifer y teithwyr. Mae hefyd yn gwneud y pwynt bod newid mor negyddol yn cydgyfeirio'n llwyr â'r nodau, dyheadau ac amcanion strategol a nodir ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Rydym yn awyddus i hyrwyddo, hwyluso a chyflawni newid moddol i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, gwella mynediad yn gyffredinol ac ansawdd bywyd ac iechyd ein trigolion. Fodd bynnag, mae lleihau argaeledd ac atyniad yr hyn sydd eisoes yn gyfleoedd cyfyngedig i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardaloedd a wasanaethir gan y rheilffordd yn gam sylweddol i'r cyfeiriad anghywir, ac rwyf wedi gwneud y pwynt hwn yn eithaf clir i Trafnidiaeth Cymru.